



WALES **AUDIT** OFFICE
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol Mehefin 2010



Cyf: 368A2010

Llun trwy garedigrwydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Arweiniwyd Tîm Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gan Rod Alcott (Swyddog Arweiniol Asesu Gwelliant) a Jeremy Evans (Cydlynnydd Asesu Gwelliant) o dan gyfarwyddyd Jane Holownia (Partner).

**Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk**

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel rhan o'r gwaith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partiion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei harchwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk



Cynnwys

Crynodeb	4
Rhan 1: Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser	6
Er bod y Cyngor wedi mynd i'r afael â nifer o wendidau yn y trefniadau corfforaethol bydd ffordd gadarn o gynllunio busnes yn hanfodol er mwyn sicrhau gwelliannau yn y dyfodol	6
Yn y gorffennol, roedd camau gweithredu megis trosglwyddo stoc yn arloesol ac yn edrych i'r dyfodol, ond mae gwendidau o ran trefniadau corfforaethol wedi cyfrannu at ddirywiad hirdymor mewn meysydd megis Gwasanaethau Plant	6
Mae arweinwyr gwleidyddol a rheoli wedi cydweithio'n adeiladol i fynd i'r afael â rhai problemau hirsefydlog ac i gyflawni gwelliannau	7
Mae system cynllunio busnes sy'n edrych i'r dyfodol wrthi'n cael ei sefydlu	7
Rhan 2: Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella	8
Mae arweinyddiaeth effeithiol, gweithio mewn partneriaeth, prosesau busnes a rhai agweddau ar reoli pobl yn cefnogi gwelliant ond gallai'r trefniadau rheoli perfformiad a chynllunio'r gweithlu roi'r gwelliannau ar gyfer y dyfodol yn y fantol	8
Mae arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol wedi arwain at bolisiâu a strategaethau lefel uchaf cydlynol	8
Mae datblygiadau o ran ymgysylltu â dinasyddion, agweddau ar reoli pobl a rhai prosesau busnes yn cefnogi gwelliant yn gadarnhaol	8
Mae gan y Cyngor ddiwylliant cadarnhaol o weithio mewn partneriaeth er budd y gymuned ac er ei fod wedi dechrau ystyried lle y gallai partneriaethau arbed arian, nid oes ganddo system i werthuso'r canlyniadau	10
Mae angen i'r Cyngor gryfhau cynllunio busnes, rheoli perfformiad a chynllunio'r gweithlu ymhellach er mwyn sicrhau gwelliannau yn y dyfodol	11

Crynodeb

- 1 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009) (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad blynyddol o Welliant ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru, hynny yw cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.
- 2 Er mwyn cyflawni'r gofyniad hwn bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal:

 - Asesiad Corfforaethol – adolygiad o drefniadau awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus;
 - Asesiad o Berfformiad – i asesu p'un a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ar ei gyfer.
- 3 Yn y modd hwn gellir cynnal asesiad sefydliad cyfan ym mhob cyngor mewn dull safonol. Gyda'i gilydd bydd y ddau asesiad hyn yn sail i adroddiad blynyddol i ddinasyddion, a elwir yn Adroddiad Gwella Blynyddol.
- 4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyfuno ei gwaith hi, gwaith ei Archwilydd Penodedig a gwaith rheoleiddwyr perthnasol eraill, i lywio'r Asesiad Corfforaethol. Gan mai hon yw blwyddyn gyntaf y dull gweithredu newydd, mae'r asesiad yn un rhagarweiniol a dylid ystyried yr adroddiad hwn yn adroddiad ar gynnydd. Bydd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Asesiad Corfforaethol.
- 5 Ym mis Mawrth 2010, nododd yr Archwilydd Cyffredinol faint yr her ariannol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru mewn adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol '*Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus*'. Mae CLILC, CIPFA a SOLACE hefyd wedi tynnu sylw at yr effaith y gallai gostyngiadau mewn gwariant ei chael ar lywodraeth leol. Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mehefin 2010, nododd CLILC, 'ni ellir osgoi'r ffaith y bydd yn rhaid i bob rhan o'r sector cyhoeddus edrych ar ei gwariant presennol a'r gwasanaethau a ddarperir ganddi – ni ellir cywiro'r diffyg drwy arbedion effeithlonrwydd yn unig'. Er mwyn ymateb i'r her hon, mae'n rhaid i awdurdodau lleol gynnal adolygiad sylfaenol o'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt a'r modd y'u cyflwynir, gan gynnwys opsiynau ar gyfer caffael mwy o wasanaethau yn hytrach na'u darparu a chydweithredu. Paratowyd yr Asesiad Corfforaethol yn y cyd-destun hwn.
- 6 Mae'r adroddiad hwn ond yn nodi canfyddiadau'r Asesiad Corfforaethol a'i ddiben yw ateb y cwestiwn:

'A yw trefniadau'r Cyngor yn debygol o sicrhau gwelliant parhaus?'
- 7 Gan mai ein Hasesiad Corfforaethol Rhagarweiniol yw hwn mae sawl maes lle mai dim ond gwaith cyfyngedig sydd wedi bod yn bosibl. Byddwn yn parhau i adeiladu ar hyn a monitro cynnydd yn y misoedd i ddod er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd.



8 Y casgliad sy'n deillio o'n Hasesiad Corfforaethol cyntaf yw bod y Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau corfforaethol ac wedi cyflawni nifer o welliannau ond mae meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach o hyd er mwyn sicrhau gwelliannau yn y dyfodol.

9 Seiliwyd ein casgliad ar ein hasesiad o gynnydd y Cyngor dros amser a dadansoddiad o gryfderau a gwendidau ei drefniadau i ategu gwelliant. Esbonnir y casgliadau hyn yn fanwl yn Rhan 1 a Rhan 2 o'r adroddiad yn y drefn honno. Canfuwyd y canlynol:

- er bod y Cyngor wedi mynd i'r afael â nifer o wendidau yn y trefniadau corfforaethol bydd cael system gadarn ar gyfer cynllunio busnes yn hanfodol er mwyn sicrhau gwelliannau yn y dyfodol;
- mae arweinyddiaeth effeithiol, gweithio mewn partneriaeth, prosesau busnes a rhai agweddau ar reoli pobl yn cefnogi gwelliant ond gallai'r trefniadau rheoli perfformiad a chynllunio'r gweithlu roi'r gwelliannau ar gyfer y dyfodol yn y fantol.

Arolygiadau Arbennig

10 Yn seiliedig ar yr Asesiad Corfforaethol, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cynnal Arolygiad Arbennig o'r Cyngor o dan adran 21 o'r Mesur nac argymhell y dylai Gweinidogion Cymru ddarparu cymorth i'r Cyngor drwy arfer eu pŵer o dan adran 28 o'r Mesur na rhoi cyfarwyddyd o dan adran 29 o'r Mesur.

Meysydd ar gyfer gwelliant

11 Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella i'r Cyngor o dan adran 19 o'r Mesur ond awgrymir cynigion ar gyfer gweithredu isod.

Arddangosyn 1: Cynigion ar gyfer gwelliant

C1 Dylai'r Cyngor gwblhau ei drefniadau cynllunio busnes dros y misoedd i ddod yn seiliedig ar Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

C2 Er mwyn dileu anghysondebau rhwng gwybodaeth am eiddo a data ariannol, dylai'r Cyngor weithredu system storio data asedau sefydlog newydd.

C3 Dylai'r Cyngor ddatblygu mesurau allbwn ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.

C4 Dylai'r Cyngor sicrhau y caiff y broses arfarnu perfformiad staff ei defnyddio'n gyson drwy'r Cyngor fel ffordd o ymgorffori prosesau rheoli perfformiad mewn prosesau rheoli bob dydd.

C5 Mae angen i'r Cyngor ddatblygu ei ddull gweithredu o ran cynllunio'r gweithlu.

C6 Dylai'r Cyngor adolygu'r rhaglen Archwiliad Mewnol a blaenraglenni gwaith y Pwyllgor Craffu er mwyn bodloni ei hun bod y risgiau mwyaf arwyddocaol i'r Cyngor yn cael eu hadolygu.

Rhan 1: Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser

Er bod y Cyngor wedi mynd i'r afael â nifer o wendidau yn y trefniadau corfforaethol bydd ffordd gadarn o gynllunio busnes yn hanfodol er mwyn sicrhau gwelliannau yn y dyfodol

Yn y gorffennol, roedd camau gweithredu megis trosglwyddo stoc yn arloesol ac yn edrych i'r dyfodol, ond mae gwendidau o ran trefniadau corfforaethol wedi cyfrannu at ddirywiad hirdymor mewn meysydd megis Gwasanaethau Plant

- 12 Mae'r Cyngor wedi gwella ei drefniadau corfforaethol nes eu bod yn addas at y diben ar y cyfan ac yn cefnogi gwelliant. Mae'r gwelliant hwn yn ffrwyth cryn ymdrech a sylw cyson ar fynd i'r afael â rhai problemau hirsefydlog.
- 13 Roedd y Cyngor yn torri tir newydd pan drosglwyddodd ei stoc tai, sef y cyntaf yng Nghymru i wneud hynny. Trosglwyddwyd y stoc i Gymdeithas Tai Cymoedd i'r Arfordir ym mis Medi 2003. Roedd y Cyngor hefyd yn edrych i'r dyfodol ac yn arloesol pan osododd ei system casglu gwastraff ar gontract yn 2003 a arweiniodd at sicrhau gwasanaeth gwell am lai o gost.

14 Er gwaethaf rhai llwyddiannau nodedig cafwyd rhai methiannau sylweddol hefyd yn benodol yn y Gwasanaethau Plant a oedd yn destun ymyrraeth hirfaith rhwng 2005 a 2009. Roedd methiannau'r Gwasanaethau Plant a'r cyfnod hir yr oedd yr ymyrraeth honno ar waith yn adlewyrchiad, i raddau, o wendidau trefniadau corfforaethol.

15 Bu newidiadau sylweddol yn yr arweinyddiaeth wleidyddol a rheoli ers 2004. Cyn 2004, Llafur oedd mewn grym. Fe'i disodlwyd yn 2004 gan y Glymblaid a fu mewn grym tan 2008 pan ddaeth y Grŵp Llafur i rym unwaith eto. Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn gymharol newydd a phenodwyd y Prif Weithredwr yn 2007.

16 Ar 25 Medi 2009, cyhoeddodd yr Archwilydd Penodedig adroddiad archwilydd diamod ar y Datganiadau Ariannol, gan gadarnhau iddynt gael eu llunio i safon uchel yn unol â gofynion statudol a'u bod yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol a thrafodion ariannol y Cyngor. Roedd ein Llythyr Blynyddol diwethaf a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2010 yn cydnabod y bydd cynnal gwelliannau yn gofyn am ddewisiadau anodd ynglŷn â ble i ganolbwyntio'r adnoddau sydd ar gael.



Mae arweinyddiaeth wleidyddol a rheoli wedi cydweithio'n adeiladol i fynd i'r afael â rhai problemau hirsefydlog ac i gyflawni gwelliannau

- 17** Ceir perthynas waith dda rhwng swyddogion ac aelodau ar lefel uwch. Mae hyder gan yr aelodau yng ngallu'r uwch swyddogion i gynnig atebion a darparu gwybodaeth lawn er mwyn llywio eu penderfyniadau.
- 18** Mae'r cydberthnasau cadarnhaol hyn yn sicrhau bod cydweithio rhwng aelodau'r cabinet a'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn adeiladol ac yn gynhyrchiol. Mae briffio anffurfiol rheolaidd a threfniadau eraill a wneir rhwng aelodau'r cabinet a'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn gwella'r cydweithio hwn.
- 19** Mae'r Cyngor wedi gwella ei drefniadau corfforaethol nes eu bod yn addas at y diben ar y cyfan ac yn cefnogi gwelliant. Mae'r gwelliant hwn yn ffrwyth cryn ymdrech a sylw cyson ar fynd i'r afael â rhai problemau hirsefydlog drwy raglen foderneiddio a gweddnewid y broses darparu gwasanaeth a'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio. Ymysg enghreifftiau o faterion yr aed i'r afael â hwy mae adolygiad o brosesau corfforaethol sydd wedi arwain at arfer mwy cadarn, gweithio corfforaethol gwell a mwy o gysondeb mewn meysydd megis asesu risg a rheoli asedau.
- 20** Er bod gwelliant yn ddiamau ers meysydd y mae angen i'r Cyngor eu monitro'n ofalus. Er bod Addysg yn perfformio ar y lefel a ddisgwylir, mae angen o hyd i gryfhau a chefnogi perfformiad y timau diogelu plant ac araf fu datblygiad yr agenda effeithlonrwydd corfforaethol.

Mae system cynllunio busnes sy'n edrych i'r dyfodol wrthi'n cael ei sefydlu

- 21** Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd yng ngwella trefniadau corfforaethol y mae wedi'i wneud ond mae heriau mawr o'i flaen o hyd. Mae'r Cyngor yn dechrau cyfnod lle y bydd yn wynebu toriadau difrifol mewn gwariant a bydd angen gwneud penderfyniadau anodd ac amserol ynghylch y defnydd o adnoddau.
- 22** Mae hanes o reoli ariannol darbodus ynghyd â'r gwelliannau sydd eisoes wedi'u gwneud yn golygu er na ddylid bychanu heriau'r dyfodol, mae'r Cyngor bellach mewn sefyllfa well i ateb yr heriau hyn ac i sicrhau gwelliant yn y dyfodol.
- 23** Cyflwynwyd newidiadau'n ddigon cyflym hyd yn hyn ond bydd yn rhaid i hyn gyflymu yn y dyfodol. Yn benodol bydd yn rhaid i'r Cyngor wneud nifer fwy o benderfyniadau anodd a bydd yn rhaid gwneud y penderfyniadau hyn yn gynt. Bydd y newidiadau hyn yn brawf ar y cytundeb gwleidyddol sy'n bodoli ar hyn o bryd.
- 24** Mae'r Cyngor bellach yn dechrau'r cyfnod pontio rhwng rhoi ei Raglen Drawsnewid ar waith i ganolbwyntio ar gyflymu'r agenda effeithlonrwydd. Cefnogir y trawsnewid hwn gan y Prif Weithredwr sy'n cymryd rôl flaenllaw yn y gwaith o ddatblygu'r agenda effeithlonrwydd a'r cynllun busnes integredig sy'n dod i'r amlwg.

Rhan 2: Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella

Mae arweinyddiaeth effeithiol, gweithio mewn partneriaeth, prosesau busnes a rhai agweddau ar reoli pobl yn cefnogi gwelliant ond gallai'r trefniadau rheoli perfformiad a chynllunio'r gweithlu roi'r gwelliannau ar gyfer y dyfodol yn y fantol

Mae arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol wedi arwain at bolisiau a strategaethau lefel uchaf cydlynol

- 25** Mae'r Cyngor yn sefydlog ac yn aeddfed yn wleidyddol. Nodwedd o'r ymagwedd gyffredinol at wleidyddiaeth yw nad oes achosion o ymgecro gwleidyddol y tu hwnt i ddatgan gwahaniaethau ideolegol gwirioneddol. Mae parodrwydd ar ran y llywodraeth bresennol i gydnabod ac adeiladu ar y cynnydd a gyflawnwyd o dan y llywodraeth flaenorol.
- 26** Caiff pwyllgorau craffu eu cadeirio gan aelodau'r wrthblaid ac maent yn cynnig her adeiladol yn hytrach na beirniadaeth negyddol. Mae gan y swyddogaeth graffu adnoddau da o ran cymorth swyddogion ac mae ganddi rywfaint o allu ac adnoddau ymchwil i'w chynorthwyo yn ei rôl cyn penderfynu. Mae cydbwysedd da o ran herio yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio.

27 Mae gan y llywodraeth flaenoriaethau gwleidyddol clir ac mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn rhoi arweiniad effeithiol o ran cyflawni'r blaenoriaethau hyn. Er bod blaenoriaethau croes yn anochel rhwng cyfarwyddiaethau ceir undod corfforaethol unwaith y gwneir penderfyniadau.

28 Mae'r Cyngor wedi cymryd rôl arweiniol yn datblygu'r Strategaeth Gymunedol ac mae arweinyddiaeth y Cyngor yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLI). Mae gan y Cyngor ymdeimlad cryf o arweinyddiaeth gymunedol ac ymrwymiad i weithio gyda phartneriaid er mwyn diwallu anghenion y gymuned.

29 Mae llinell glir iawn o'r Strategaeth Gymunedol a'r blaenoriaethau gwleidyddol i gynlluniau busnes lefel gwasanaeth. Fodd bynnag erys rhywfaint o ansicrwydd ynghylch sut bydd y cynlluniau'n cael eu cyflawni, beth fydd y canlyniadau a sut cânt eu hadnoddau.

Mae datblygiadau o ran ymgysylltu â dinasyddion, agweddau ar reoli pobl a rhai prosesau busnes yn cefnogi gwelliant yn gadarnhaol

Ymgysylltu â dinasyddion

30 Mae gan y Cyngor ddull cadarnhaol o ymgysylltu â dinasyddion. Mae gan y Cyngor banel dinasyddion sefydledig ac ymatebol. Ymgysylltir yn ehangach drwy ddsbarthu bwletinau deiliaid cartref er bod cyfraddau ymateb o'r dull gweithredu hwn yn draddodiadol wedi bod yn wan.



31 Mae'r Cyngor yn cysylltu â fforymau sector gwirfoddol ar gyfer pobl hŷn a grwpiau anabledd ac mae ganddo hawl i weld gwybodaeth o ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan bartneriaid megis yr heddlu. Mae adran ar wefan y Cyngor hefyd ar gyfer ymgynghori cyhoeddus. Mae'r Cyngor yn awyddus i rannu canlyniadau ymgynghori ac mae'n cynnal sioeau teithio er mwyn rhoi gwybod am ganlyniadau.

32 Mae'r BGLI yn rhoi blaenoriaeth i ymgysylltu â dinasyddion. Mae'n gobeithio datblygu strategaeth ddiwygiedig sy'n uno ymgysylltu ac ymgynghori drwy'r bartneriaeth gyfan, er mwyn osgoi dyblygu ac er mwyn rhannu negeseuon ymgynghori ymysg y partneriaid.

Rheoli pobl

33 Mae canoli'r gwasanaeth Adnoddau Dynol wedi arwain at newid angenrheidiol yn y ffordd y caiff polisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol eu cymhwyso ar draws y Cyngor. Mae'r newid hwn wedi arwain at ddull gweithredu mwy cyson o ran ymdrin â materion rheoli pobl gyda chefnogaeth gwasanaeth Adnoddau Dynol mwy effeithiol.

34 Mae ailstrwythuro'r gwasanaeth Adnoddau Dynol ynghyd â'i amcanion hefyd yn hwyluso newid diwylliannol o ran disgwyliadau rheolwyr a lefel y cymorth o'r gwasanaethau Adnoddau Dynol. Hynny yw bod y gwasanaeth Adnoddau Dynol yn rhoi cyngor a chymorth i wasanaethau er mwyn caniatáu i reolwyr reoli. Fodd bynnag, nid yw'r holl reolwyr yn gyfforddus â'r newid hwn.

35 Mae cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch wedi gwella'n sylweddol o ganlyniad i weithredu polisi absenoldeb oherwydd salwch clir, mwy o gymorth gweinyddol mewn rhai gwasanaethau er mwyn cofnodi a chyflwyno adroddiadau am gyfraddau absenoldeb oherwydd salwch, a monitro cadarn gan uwch reolwyr, aelodau ac Adnoddau Dynol.

36 Mae rhai cynrychiolwyr Undebau Llafur wedi mynegi pryder am y ffordd y caiff absenoldeb oherwydd salwch ei reoli ar draws y gwasanaethau. Er bod yr undebau'n derbyn y polisi, nid yw pob un yn fodlon ar y ffordd y caiff y polisi ei weithredu gan reolwyr ac Adnoddau Dynol.

Prosesau Busnes

37 Datblygodd y Cyngor Gynllun Rheoli Asedau newydd yn 2009 ac mae wrthi'n adolygu ei sail asedau sefydlog yn unol â'i broses cynllunio'r gweithlu a'i Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Er enghraifft, mae'r Cyngor wedi prynu eiddo yng nghanol Pen-y-bont ar Ogwr (Raven's Court) a fydd yn diwallu anghenion y Cyngor yn well, a'i alluogi i adael adeiladau eraill sy'n cael eu prydlesu. Bydd hyn yn dod â rhai gwasanaethau i amgylchedd gweithio agosach, gyda'r potensial i sicrhau gwelliannau o ran costau ac arferion gwaith.

38 Mae'r Cyngor wedi datblygu dull llwyddiannus o reoli risg yn seiliedig ar yr egwyddorion a nodir yn yr Aseiad Risg ar y Cyd a gefnogir gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae fframwaith cynhwysfawr ar waith ar gyfer monitro risgiau, gan gynnwys yr Adolygiad Busnes Chwarterol a chyfranogiad gweithredol y Bwrdd Rheoli Corfforaethol. Mae'r Cyngor hefyd wrthi'n datblygu cydberthynas fwy uniongyrchol rhwng risg strategol a'r rhaglen Archwiliad Mewnol.

39 Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd o ran nodi a monitro risg, ac mae ganddo bolisiau a phrosesau i gefnogi gwelliant. Mae llawer o'r risgiau i welliant parhaus a nodwyd yn gysylltiedig â chyllid, a dyma lle y bydd angen gwneud penderfyniadau allweddol yn y dyfodol. Mae'r cyfrifoldebau am reoli risg ar lefel gwasanaeth a chyfarwyddiaeth wedi'u diffinio'n glir, ond gellir eu diffinio'n well ar lefel corfforaethol.

40 Mae'r Cyngor wedi gwella ei drefniadau rheoli rhaglenni a phrosiectau. Sefydlodd Ganolfan Ragoriaeth er mwyn datblygu pecyn adnoddau a darparu hyfforddiant, mentora, cymorth a sicrwydd ansawdd. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi sefydlu grwpiau rhwydwaith ar gyfer rhannu dysgu.

41 Y nod yw gosod rheoli rhaglenni a phrosiectau ar sail gynaliadwy gan sicrhau y caiff gwybodaeth a sgiliau eu cefnogi gan grŵp bach o reolwyr rhaglenni/prosiectau arbenigol yn y sefydliad drwyddi draw. Mae'r dull gweithredu a fabwysiadwyd gan y Cyngor wedi cryfhau rheoli rhaglenni a phrosiectau yn sylweddol ac ystyriwn hwn yn enghraifft o arfer da.

42 Mae trefniadau llywodraethu TGCh yn glir ac yn effeithiol. Mae Strategaeth TGCh yn gysylltiedig ag ysgogwyr busnes a chyfranogodd yr holl randdeiliaid allweddol yn ei ddatblygiad. Mae defnyddio Dangosyddion Perfformiad Allweddol SOCTIM yn cefnogi'r broses rheoli perfformiad TG ac yn darparu gwybodaeth cymharydd cenedlaethol i'r Cyngor.

Mae gan y Cyngor ddiwylliant cadarnhaol o weithio mewn partneriaeth er budd y gymuned ac er ei fod wedi dechrau ystyried lle y gallai partneriaethau arbed arian, nid oes ganddo system i werthuso'r canlyniadau

43 Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi gwerth gweithio mewn partneriaeth ac mae ganddo hanes o weithio'n agos gyda chyrff allanol. Gwelwyd bod ganddo gydberthnasau gwaith effeithiol â'r heddlu ond maent yn llawer cryfach erbyn hyn ac mae trefniadau gwaith gyda phartneriaid iechyd wedi bod yn gadarnhaol erioed.

44 Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn Fwrdd Gwasanaethau Lleol cryf ac mae ganddo ei hunaniaeth a'i logo ei hun a rennir. Mae'r BGLI yn datblygu ffocws ar ddatrys problemau yn hytrach na'u trafod. Mae ei ddull gweithredu wedi datblygu i ganolbwyntio llawer mwy ar ganlyniadau ac mae sefydlu panel craffu BGLI yn ddiweddar yn gam cadarnhaol.

45 Ymysg enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth sydd wedi bod o fudd i'r gymuned mae atgyfeiriadau a wneir gan feddygon teulu ar gyfer gweithgarwch corfforol mewn sesiynau a ariennir gan y Cyngor yn y ganolfan hamdden, adnodd iechyd meddwl ARC a ariennir ar y cyd a Stiwdio 34. Mae cyfraddau isel o oedi wrth drosglwyddo gofal yn enghraifft arall o fanteision gweithio mewn partneriaeth. Mae'r Cyngor wedi gallu ymgysylltu â'r sector preifat a chaiff y rhan fwyaf o ofal preswyl a chartrefi nyrsio ei ddarparu gan y sector hwn.



46 Drwy ei ddull cadarnhaol o weithio mewn partneriaeth mae'r Cyngor yn gobeithio nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio yn y dyfodol a fydd yn cyflawni gwasanaethau ac yn arbed mwy o arian. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i'r Cyngor nodi'r canlyniadau y mae'n chwilio amdanynt o weithio mewn partneriaeth yn llawer gwell. Mae'r BGLI eisoes wedi datblygu i ganolbwyntio fwy ar ganlyniadau a bydd yn rhaid i'r Cyngor adeiladu ar y profiad hwn a'i ymestyn i feysydd eraill o weithio mewn partneriaeth.

Mae angen i'r Cyngor gryfhau cynllunio busnes, rheoli perfformiad a chynllunio'r gweithlu ymhellach er mwyn sicrhau gwelliannau yn y dyfodol

47 Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn asesu'r diffyg ariannol posibl ond nid yw'n nodi'r ffordd y caiff y diffyg ei reoli. Fodd bynnag, mae cynlluniau wrthi'n cael eu datblygu at y tymor canolig a'r hirdymor a fydd yn rhoi ystyriaeth briodol i'r adnoddau ariannol sy'n debygol o fod ar gael. Caiff y cynlluniau hyn eu cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaethau gwasanaeth, a byddant yn seiliedig ar asesiad o gostau gwirioneddol cyflawni'r gweithgareddau presennol, ac amcangyfrifon ar gyfer gweithgareddau nwydd.

48 Cymeradwyodd y cabinet y broses y bydd y Cyngor yn ei defnyddio i greu'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Mae'n cysylltu â'r strategaeth Effeithlonrwydd ac Arloesedd ac yn disgrifio sut bydd y Cyngor yn gweithredu'r arbedion a nodwyd.

49 Mae'r Cyngor yn bwriadu y bydd gan y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig gysylltiadau cryf â'r amcanion strategol ac yn caniatáu i adnoddau gael eu cyfarwyddo tuag at flaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae ganddo'r posibilrwydd o weithredu fel cynllun busnes integredig sy'n uno llinynnau amrywiol megis y cynllun corfforaethol, y cynlluniau busnes, y cynlluniau gwasanaeth a'r cyllidebau.

50 Mae'r Cyngor yn symud i'r cyfeiriad cywir o ran ei gynllun ariannol tymor canolig a hirdymor, ond erys cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd os yw'r Cyngor yn mynd i gyflawni ei flaenoriaethau ar gyfer gwella o fewn ei gyllid ariannol. Mae cyflawni cynllun busnes integredig yn hanfodol i obeithion y Cyngor o gyflawni gwelliannau yn y dyfodol.

51 Mae proses rheoli perfformiad y Cyngor wedi gwella a nodwyd y gwelliant hwn mewn Llythyrau Archwilio Blynnyddol olynol. Mae gan y Cyngor fodel datblygedig ar gyfer cynhyrchu gwybodaeth am berfformiad. Mae tîm penodedig yn cefnogi'r cyfarwyddiaethau ac yn dadansoddi perfformiad. Mae'r Tîm Perfformiad yn datblygu crynodebau ystadegol sy'n dangos tuedd a pherfformiad yn erbyn targedau. Mae Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaethau yn cyflwyno'r adroddiadau cryno hyn yn y cyfarfodydd Adolygiad Busnes Chwarterol er mwyn eu trafod a'u herio.

52 Er bod y broses wedi gwella, mae angen ei datblygu'n fwy er mwyn cefnogi gwelliannau yn y dyfodol. Mae angen i'r Cyngor symud tuag at nodi'r canlyniadau y mae'n ceisio eu cyflawni fel sail ar gyfer mesur perfformiad er mwyn ategu'r gwaith o fonitro'r dangosyddion perfformiad a'r gweithgarwch.

- 53** Bydd symud tuag at fesurau sy'n seiliedig ar ganlyniad yn helpu'r Cyngor ar gam nesaf y datblygiad sef symud oddi wrth fesur a monitro effeithiol perfformiad tuag at reoli perfformiad yn fwy gweithredol. Mae'n rhaid i reolwyr gydnabod bod rheoli perfformiad yn ymwneud â rheoli pobl yn ogystal â chasglu'r wybodaeth angenrheidiol. Mae'r ffordd anghyson y gweithredwyd y broses arfarnu staff yn 2009-10 yn awgrymu bod gan y Cyngor dipyn o ffordd i fynd cyn bod prosesau rheoli perfformiad wedi'u hymgorffori mewn prosesau rheoli bob dydd.
- 54** Nid oes cynllun gweithlu cyffredinol ar waith ar hyn o bryd ond mae'r Cyngor wedi paratoi cynigion drafft er mwyn rheoli effaith setliadau llai yn y dyfodol. Mae hwn ar gam cynnar fel rhaglen gorfforaethol. Mae gan rai cyfarwyddiaethau gynlluniau manwl ond prin yw'r manylion a gofnodwyd gan eraill. Caiff negeseuon ynghylch diwylliant gwelliant parhaus eu rhaeadru ymhlith y staff, ond erys lle i ddatblygu mwy. Mae amcanion staff yn dechrau cael eu cysylltu â blaenoriaethau datblygu mewn cynlluniau ac arfarniadau staff, ond nid yw hyn yn rheolaidd.
- 55** Fel rhan o rôl Adnoddau Dynol yn cefnogi'r datblygiad sefydliadol, rhoddir cyngor a chanllawiau i wasanaethau sy'n ailfodelu'r gweithlu. Ond mae'n debygol y bydd problemau o ran adnoddau'n codi yn y gwasanaeth Adnoddau Dynol os bydd angen y math hwn o gymorth ar fwy o wasanaethau.
- 56** Mae mwy o ganolbwyntio ar werthuso swyddi a disgwylir y bydd model graddau cyflog newydd ar waith erbyn mis Mehefin 2011. Fodd bynnag, mae tipyn o ffordd i fynd cyn y gweithredir y system newydd yn llawn a bydd unrhyw oedi ar ôl y terfyn amser hwnnw yn cynyddu'r risg o niweidio cydberthnasau cyflogeion ac undebau llafur.